



Dyddiad cyhoeddi: 31 Ionawr 2020

## Gorsaf Llwydlo

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth. Gallaf gadarnhau bod gennym ni'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi. Roeddech chi wedi gofyn am y canlynol:

- Manylion o'r adroddiad ar orsaf Llwydlo, a gomisiynwyd gan Weithgor Gwella Gorsafoedd TrC (Hydref 2018 - Ebrill 2019), ynghylch y gwelliannau diogelwch a nodwyd fel rhai angenrheidiol yn y maes parcio o flaen yr orsaf.
- Yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad, gan gynnwys sut mae TrC yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a grwpiau cymunedol Llwydlo i integreiddio gwasanaeth Parcio a Theithio'r dref yn well yng nghwrt blaen yr orsaf, yn arbennig o ran diogelwch teithwyr a'r cyhoedd.
- Yr argymhellion sydd wedi cael eu derbyn gan TrC ar gyfer gweithredu, ac ar ba amserlen.

Cwblhawyd y gwaith o ailfarcio llefydd parcio Llwydlo ym mis Medi/Hydref 2019 fel rhan o'n gwaith gwella cychwynnol. Yn dilyn y gwaith hwn, mynegodd y cyngor bryderon a rhoddwyd sylw iddynt. Rydym yn bwriadu mynd yn ôl i orsaf Llwydlo i wneud gwelliannau cyffredinol yn gynnar yn 2021.

O ran gwella diogelwch, byddwn yn rhoi sylw i hyn wrth gyflawni'r gwelliannau cyffredinol yn gynnar yn 2021 drwy ymgysylltu â'n timau diogelwch mewnol, ein timau gweithredol a'r awdurdod lleol.

Mae Gorsaf Llwydlo hefyd yn rhan o raglen sy'n cael ei harwain gan Network Rail, sef Mynediad i Bawb. Er bod hyn yn amodol ar y broses dewis opsiynau, a fydd yn cynnwys adolygu cyfyngiadau gorsafoedd ac ymgynghori â grwpiau anabledd a grwpiau defnyddwyr eraill, rhagwelir ar hyn o bryd y gellid symud ymlaen ag ateb ymwithiol isel yn Llwydlo, sef lifft neu ramp yn cysylltu'r bont droed bresennol.

Drwy'r arolygon a gwblhawyd o gyflwr asedau'r orsaf yn gynharach eleni, mae Trafnidiaeth Cymru'n delio â'r llefydd parcio y cyfeirir atynt. Rydym yn deall y pryder ynghylch dyluniad a lleoliad y llefydd parcio hyn ac rydym wedi rhoi gwybod i'n tîm gweithrediadau a fydd yn adolygu'r sefyllfa yn y tymor byr.

Fodd bynnag, yn y tymor hir, fel rhan o'n Cynllun Gwella Gorsafoedd, rydym yn bwriadu adolygu cynllun y maes pario yng ngorsaf Llwydlo, gan gynnwys y llefydd parcio, ac ar hyn o bryd rydym yn ymgysylltu â dylunwyr i gwblhau'r astudiaethau dylunio cychwynnol. Nid ydym yn gallu cadarnhau'r dyddiad ar gyfer cychwyn y gwaith hwn eto ond byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi. Os byddwn yn symud y llefydd parcio sydd ym mlaen yr orsaf, byddwn yn blaenoriaethu rhoi llefydd parcio newydd i bobl anabl. Fodd bynnag, mae hyd a lled ein gwaith wedi'i gyfyngu gan ffiniau



prydlesu'r orsaf a bydd ein gwaith yn cynnwys cysylltu'n agos â thirfeddianwyr trydydd parti, gan gynnwys yr awdurdod lleol.

Fel y gwyddoch, o bosib, bydd Llwydlo yn elwa o bont droed hygyrch newydd fel rhan o'r cynllun Mynediad i Bawb. Mae ein partner Network Rail wrthi'n gwneud y gwaith dylunio cychwynnol ar gyfer y cynllun hwn a bydd yn rheoli'r gwaith adeiladu hefyd. Mae prosiect Mynediad i Bawb yn darparu mynediad llawn i bob defnyddiwr o fynediad yr orsaf, sy'n fwy na dim ond pont droed a lifftiau/rampiau. Byddwn yn penodi rheolwr rhanddeiliaid ar gyfer yr ardal hon i weithio gyda rhanddeiliaid lleol a Network Rail dros y misoedd nesaf.

Yn olaf, byddwn yn darparu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) i'r orsaf fel rhan o'n gwaith i uwchraddio cyfleusterau gorsafoedd yn y Cynllun Gwella Gorsafoedd, ac rydym yn bwriadu dechrau hyn yn 2021.

Mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru